



Amcan Llesiant 11

Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi
Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
A	Cymunedau Oed Gyfeillgar:	
1	Byddwn yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gyfleusterau ysgol i gefnogi gweithgarwch cymunedol ehangach. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion 2, 8 a 9) MF5-30</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn datblygu ymhellach Gynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda Sir Gaerfyrddin	Mawrth 2019
3	Byddwn yn gwella ein dulliau ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Fforwm 50+	Mawrth 2019
4	Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth 'Ceir Cefn Gwlad' a chysylltiadau â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.	Mawrth 2019
5	Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a Chynghorau Sir Ceredigion a Phenfro i helpu i gynnal gwasanaethau trafndiaeth integredig Bwcabus/LINC a gwasanaethau strategol allweddol. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 13)</i>	Mawrth 2019
6	Byddwn yn parhau i adolygu rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus y Sir ac yn gweithio gyda Gweithredwyr a Rhanddeiliaid i gynnal y rhwydwaith o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.	Mawrth 2019
7	Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cerdyn Teithio Rhatach Cymru Gyfan	Mawrth 2019
8	Byddwn yn lansio gwefan i gyfeirio dysgwyr at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael gan yr holl ddarparwyr yn y Sir	Mawrth 2019
9	Byddwn yn asesu'r opsiynau ar gyfer cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni i dai Cyngor <i>(Cam Gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i>	Mawrth 2019
10	Byddwn yn clustnodi'r adnoddau ffisegol sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant eu poblogaeth drwy borth gwybodaeth penodedig ar-lein megis "Dewis.Cymru". <i>(Hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)</i>	Mawrth 2019
11	Byddwn yn darparu cymorth i ofalwyr, a gofalwyr ifanc yn benodol, i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gofal amhrisiadwy maent yn ei gynnig i berthnasau a ffrindiau mewn angen. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 10) MF5-58</i>	Mawrth 2019
B	Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia:	
1	Byddwn yn parhau i gefnogi pobl sy'n byw â dementia ac datblygiad cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia a darpariaethau ar draws y Sir. <i>MF5-60</i>	Ebrill 2019
2	Byddwn yn dechrau gweithredu ein cynllun Datblygu Llyfrgelloedd 2017 – 2022 ac fel rhan o gyflwyno'r cynllun hwnnw, y gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol newydd. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 14)</i>	Mawrth 2022
C	Atal Codymau:	
1	Byddwn yn arolygu priffyrdd, llwybrau troed a seilwaith goleuadau yn rheolaidd i nodi unrhyw ddiffygion sy'n peri perygl i'r cyhoedd.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth o ymyriadau gweithgarwch corfforol wedi'u targedu yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol cwrs bywyd i gynyddu lefelau gweithgarwch y rhai nad ydynt yn egnïol neu y mae perygl na fyddant yn egnïol ac yn cynyddu cydlyniant cymdeithasol a chymunedol. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 8)</i>	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
3	Gan gydweithio â'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn darparu hyfforddiant staff drwy fenter Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif (MECC), a fydd yn cynnwys cymorth mewn perthynas â risgiau tân, peryglon eraill, llithro, baglu a chodymau a hyfforddiant Ymyrraeth Fer ynghylch Alcohol	Mawrth 2019
D	Cyfleoedd i gael gwaith a sgiliau newydd	
1	Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith partneriaeth gydag eraill sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned drwy Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 3)</i>	Mawrth 2019
2	Byddwn yn cydlynu cyfeirio gweithgarwch digidol ar draws y Sir ar gyfer pobl hŷn	Mawrth 2019
3	Byddwn yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol priodol ar waith gan y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth er mwyn cydymffurfio â'n Dyletswydd Statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.. <i>MF5-52a (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)</i>	Mawrth 2019 bob 6 mis
4	Byddwn yn cynnal ac yn hyrwyddo Canolfan Addysg Gymunedol Caerfyrddin fel canolfan flaenllaw ar gyfer Sgiliau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), dosbarthiadau preifat, clybiau cymunedol a chymdeithasau.	Mawrth 2019
5	Byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael cymorth cyflogadwyedd drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. <i>(EconD/020)</i> <i>(Hefyd yn Amcan Llesiant 5) (Canlyniad 2017/18 – 100%)</i>	100%
6	Byddwn yn sicrhau bod nifer fawr o drigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn cymorth cynhwysiant digidol drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. <i>(EconD/021)</i> <i>(Hefyd yn Amcan Llesiant 5) (Canlyniad 2017/18 - 100%)</i>	100%
E	Unigrwydd ac arwahanrwydd	
1	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl sy'n agored i niwed a phobl hŷn gymdeithasu er mwyn lleihau unigrwydd. MF5-59	Mawrth 2019
2	Byddwn yn sefydlu ymagwedd person-ganolog at ddiogelu, sy'n sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed ac yn ganolog i benderfyniadau a wneir. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 9)</i>	Mawrth 2019
3	Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol ac yn diogelu pobl agored i niwed rhag twyll ariannol drwy'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 5 a 9)</i>	Mawrth 2019
4	Byddwn yn gweithio gyda'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r ystod o wasanaethau cymorth a ddarperir yn y sir ar draws nifer o feysydd gwasanaeth yn ogystal â datblygu ymhellach gyfleoedd gwirfoddoli yn y sir. <i>(Hefyd yn Amcan Llesiant 5) MF5-80</i>	Mawrth 2019

Mesurau Llwyddiant

Pobl sy'n unig *(Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)*